TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# IMI Dyfarniad mewn Atgyweirio ac Ailosod Cerbyd Trydan/Hybrid Lefel 3




**Yn gryno**

Mae yna angen cynyddol am dechnegwyr modurol i gynnal a chadw ac atgyweirio cerbydau hybrid a thrydan.

Bydd y cwrs hwn yn darparu'r ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i weithio'n ddiogel ar systemau foltedd uchel sydd yn y ceir hyn.

Mae’r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy’n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy’n addas i’w ffordd o fyw presennol.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

... rheiny sy’n 19+ oed, yn byw yng Nghymru, yn gyflogedig. Nid yw’r terfyn cyflog arferol o £32,371 yn berthnasol i’r cwrs hwn.

...unrhyw un sy'n gweithio yn y diwydiant modurol ar hyn o bryd

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

...unrhyw un sy'n gweithio yn y maes cynnal a chadw ac atgyweirio cerbydau hybrid/trydan

**Cynnwys y cwrs**

Byddwch yn dysgu drwy ystod o weithgareddau dosbarth a gwaith ymarferol yn ein gweithdai sydd â chyfarpar gwerth chweil. Byddwch yn cael cyfle i weithio'n ymarferol gyda'n hystod o gerbydau trydan cyfoes.

Byddwch yn mynd i'r afael â:

Gweithio'n ddiogel ar gerbydau gyda systemau foltedd uchel
Gweithio'n ddiogel yn ystod cynnal a chadw arferol cerbydau hybrid/trydan
Ailosod cydrannau mewn systemau foltedd uchel cerbydau hybrid/trydan.
Trin cerbydau sydd â difrod i'r systemau foltedd uchel

Cewch eich asesu drwy:

Arholiad Ysgrifenedig
Asesiad ymarferol

Wedi cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill:

Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Hybrid / Trydan Lefel 3

**Gofynion Mynediad**

Mae'r cwrs ar gyfer technegwyr sy'n gweithio yn y diwydiant modurol ac yn meddu ar gymhwyster lefel 3 neu gyfwerth.

Does dim angen gwybodaeth flaenorol o weithio gyda cherbydau hybrid/trydan.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae ceir yn prysur gynyddu i fod yn rHai sy'n defnyddio trydan, a bydd gofynion Iechyd a Diogelwch ynddynt eu hunain yn gofyn ichi fod yn wybodus am ddiogelwch pawb.

Bydd y cwrs hwn yn rhoi sylfaen ichi yn yr holl systemau cerbydau trydan sydd angen gofal ychwanegol a gwybodaeth arbenigol, a byddwch yn magu hyder a'r gallu i ddelio'n ddiogel ac

effeithiol gyda phob math o gerbydau sy'n ymgorffori Systemau Foltedd Uchel.

Mae'r cwrs fel arfer yn rhedeg dros 2 ddiwrnod.